BBC

# BBC Smoke Free Policy

## Definition

Legislation prohibits smoking in premises if they are used as a place of work or where members of the public might attend that workplace.

The law makes it the responsibility of employers to prevent smoking in the workplace in enclosed or substantially enclosed areas.

In order to prevent disruption to the BBCs business, aspects of the policy extend beyond the legal duties, to the use of e-cigarettes and similar devices.

This policy applies to all BBC buildings and vehicles and covers employees, other workers, contractors, performers, contributors and visitors.

## Principles

- The BBC does not permit smoking in any BBC building or in any BBC fleet, lease or hire vehicle (with the exception of performers in England, see below).
- Smoking is prohibited in all internal enclosed or substantially enclosed areas including balconies, roof areas and atria. Smoking in external areas on BBC property is only permitted in unenclosed designated smoking areas.
- Smoking is not permitted in any BBC fleet, lease or hire vehicle. If any person covered by this policy uses their own vehicle for business use then smoking is permitted as long as they are not carrying any passengers who are on BBC business.
- BBC Workplace is responsible for providing appropriate signage at the entrances to and within BBC buildings indicating that smoking is not permitted.
- Action will be taken against any individual who smokes in a BBC building or vehicle. Where employees find it difficult to or unable to give up smoking, they will be managed sympathetically and provided with reasonable support and assistance.

## Smoking on set

In Scotland, Wales and Northern Ireland smoking of cigarettes is not permitted in studios or any enclosed or substantially enclosed area. For recordings or performances which require smoking to be portrayed, other artificial products will need to be used.

In England, performers are able to smoke for the purpose of artistic integrity. Smoking by any persons other than the performer is prohibited, and the performer may only smoke for the purpose of portrayal during a ‘take’, and not during rehearsal. The performer must give their informed consent. Care must be given not to expose others to second hand smoke for extended periods of time. Where a performer is required to smoke during filming, this must be included as part of the overall risk assessment process, with informed consent obtained from anyone who may be

affected by the smoke. Appropriate fire precautions also need to be in place – see myRisks.

## Production location

If an outside (i.e. unenclosed) area of the location is used for smoking, then the individual must ensure that they dispose of any smoking materials safely.

Where the filming script requires an actor, presenter or contributor to smoke in an unenclosed area all best efforts should be made to ensure that they and those involved in the production are not exposed to the smoke for a prolonged period of time.

## Visits to private homes

It is recognised that whilst on BBC business, individuals may have to visit private homes which are not covered under the smoke-free legislation.

Individuals have the right to ask, not tell, someone not to smoke when they are visiting them in their own home. Therefore, where a visit is pre-planned, people in those homes being visited on BBC business can be written to ask them and those who may be with them, not to smoke during the visit, and ideally not to smoke immediately prior to when the visit is scheduled to take place.

When visiting homes on BBC business, it is important to identify individuals who have a pre-existing condition that is made worse by exposure to tobacco smoke, or who face additional risks e.g. due to pregnancy. Individuals who have such conditions are at higher risk and particular care should be taken to prevent or minimise their exposure to tobacco smoke.

## Electronic Cigarettes

The BBC acknowledges that some employees may wish to make use of electronic cigarettes ('e-cigarettes') in the workplace, particularly as an aid to giving up smoking. E-cigarettes are battery-powered products that use heat to vaporise a liquid-based solution containing nicotine into an aerosol mist that is inhaled by the user. Solutions are available with or without nicotine in them.

The vapour emitted by e-cigarettes (and similar devices) can cause the fire alarms to activate and lead to the evacuation of buildings. Also, E-cigarettes, particularly from a distance, can look like real cigarettes, making a smoking ban difficult to police and creating an impression that it is acceptable to smoke. For these reasons, other than when required for the artistic integrity of a production, the BBC does not permit the use of E-cigarettes or similar devices in BBC buildings.

E-cigarette use is permitted on set where they are required in the context of a production, in the same way that in England and Wales conventional cigarettes are permitted (see above). As with normal cigarette use, the risk assessment process should govern their use, particularly in relation to protecting the user and any others present from the chemicals released – solutions containing nicotine should not be used.

Outdoor use is not restricted to designated smoking areas.

## Failure to observe the Policy

All managers have a responsibility to enforce this policy in a consistent and effective manner. An individual discovered smoking in a BBC building or vehicle should be required to stop smoking and:

- in the case of an employee it will be treated as misconduct and be subject to disciplinary action;
- in the case of a freelance or contractor a warning that a further breach could result in that contract being be brought to an end;
- in the case of a visitor, a requirement to leave the premises.

Disciplinary action or other appropriate action will also be taken against an individual who endangers the safety of others by casually discarding a cigarette such that it could create a fire risk or by smoking in an enclosed or substantially enclosed area.

In addition to BBC policy, those who do not comply with the smoke-free legislation are liable to a fixed penalty fine and possible criminal prosecution.

## Support for Smokers

Managers will be sympathetic to the needs of smokers where it is practical. They will decide the appropriate arrangements under which employees can leave their place of work to take breaks to smoke. There is no right to take additional work breaks for the purpose of smoking.

Managers will also deal sympathetically with employees who wish to give up smoking.  Support to people who want to stop smoking is provided free from the NHS, e.g. from GP surgeries, local NHS Stop Smoking Service and the NHS Smoking Helplines: England and Wales Smoking Helpline 0800 169 0 169; Northern Ireland Smoking Helpline 0800 85 85 85; Scotland Smoking Helpline 0800 84 84 84.

## Responsibility

Divisional Directors are responsible for ensuring compliance in their Division.

Overall responsibility for this Policy rests with the Director, BBC People.

# Polisi Di-fwg y BBC

## Diffiniad

Mae'r ddeddfwriaeth yn gwahardd smygu ar safle os caiff y safle ei ddefnyddio fel man gwaith neu lle gallai aelodau o'r cyhoedd fynd i'r gweithle hwnnw.

Yn ôl y gyfraith, cyfrifoldeb y cyflogwyr yw atal smygu yn y gweithle mewn ardaloedd caeedig neu sylweddol gaeedig.

Er mwyn atal amharu ar fusnes y BBC, mae agweddau o'r polisi yn ymestyn y tu hwnt i'r dyletswyddau cyfreithiol ynglyn â defnyddio e-sigaréts a dyfeisiau tebyg.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl adeiladau a cherbydau'r BBC ac mae'n cwmpasu cyflogeion, gweithwyr eraill, contractwyr, perfformwyr, cyfranwyr ac ymwelwyr.

## Egwyddorion

- Nid yw'r BBC yn caniatáu smygu yn unrhyw un o adeiladau'r BBC nac unrhyw un o gerbydau fflyd, prydles neu log y BBC (ac eithrio perfformwyr yn Lloegr, gweler isod).
- Mae smygu wedi'i wahardd ym mhob ardal gaeedig neu sylweddol gaeedig dan do yn cynnwys balconïau, ardaloedd ar y to ac atria. Dim ond mewn ardaloedd smygu penodedig nad ydynt yn gaeedig y caniateir smygu mewn ardaloedd awyr agored ar safle'r BBC.
- Ni chaniateir smygu yn unrhyw un o gerbydau fflyd, prydles neu log y BBC. Os bydd unrhyw un a gwmpesir gan y polisi hwn yn defnyddio ei gerbyd ei hun at ddefnydd busnes, yna caniateir smygu ar yr amod nad yw'n cludo unrhyw deithwyr sy'n gwneud gwaith i'r BBC.
- Mae BBC Workplace yn gyfrifol am ddarparu arwyddion priodol yn y mynedfeydd i adeiladau'r BBC ac yn yr adeiladau hynny yn dangos na chaniateir smygu.
- Caiff camau gweithredu eu cymryd yn erbyn unrhyw un sy'n smygu yn un o adeiladau neu gerbydau'r BBC. Lle bydd cyflogeion yn ei chael hi'n anodd neu'n methu â rhoi'r gorau i smygu, cânt eu rheoli mewn modd ystyriol a rhoddir cymorth a chefnogaeth resymol iddynt.

## Smygu ar y set

Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni chaniateir smygu sigaréts mewn stiwdios nac unrhyw ardal gaeedig neu sylweddol gaeedig. Ar gyfer recordiadau neu berfformiadau lle mae angen portreadu rhywun yn smygu, bydd angen defnyddio cynhyrchion ffug eraill.

Yn Lloegr, caiff perfformwyr smygu at ddibenion uniondeb artistig. Caiff pawb heblaw'r perfformiwr ei wahardd rhag smygu, a dim ond at ddibenion portreadu yn ystod ffilmio y caiff y perfformiwr smygu, ac nid yn ystod ymarferion. Rhaid i'r perfformiwr roi caniatâd gwybodus. Rhaid ceisio sicrhau nad yw pobl eraill yn agored i fwg ail-law am gyfnodau estynedig. Lle bo angen i berfformiwr smygu yn ystod y ffilmio, rhaid cynnwys hyn fel rhan o'r broses asesu risg gyffredinol, a rhaid cael caniatâd gwybodus gan bawb y gallai'r mwg effeithio arnynt. Mae angen rhoi rhagofalon tân priodol ar waith hefyd – ewch i myRisks.

## Lleoliad cynhyrchiad

Os bydd ardal yn yr awyr agored (h.y. nad yw'n gaeedig) yn cael ei defnyddio ar gyfer smygu, yna mae'n rhaid i'r unigolyn sicrhau ei fod yn cael gwared ar unrhyw ddeunyddiau smygu'n ddiogel.

Lle bydd sgript ffilm yn ei gwneud hi'n ofynnol i actor, cyflwynydd neu gyfrannwr smygu mewn ardal nad yw'n gaeedig, dylid ymdrechu'n galed i sicrhau nad yw'r person hwnnw nac unrhyw un ynghlwm â'r cynhyrchiad yn agored i fwg am gyfnod estynedig.

## Ymweld â chartrefi preifat

Cydnabyddir y gall fod yn rhaid i unigolion, tra byddant yn gweithio i'r BBC, ymweld â chartrefi preifat na chânt eu cwmpasu gan y ddeddfwriaeth di-fwg.

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn i rywun, nid dweud wrthynt, am beidio â smygu pan fyddant yn ymweld â nhw yn eu cartref eu hunain. Felly, lle bydd ymweliad wedi'i drefnu ymlaen llaw, gellir ysgrifennu at bobl yn y cartrefi hynny y bwriedir ymweld â nhw fel rhan o waith y BBC yn gofyn iddynt a'r rheini a allai fod gyda nhw, am beidio â smygu yn ystod yr ymweliad, ac yn ddelfrydol am beidio â smygu'n union cyn yr ymweliad.

Pan fydd unigolion yn ymweld â chartrefi tra'n gweithio i'r BBC, mae'n bwysig nodi'r unigolion hynny sydd â chyflwr sydd eisoes yn bodoli a gaiff ei waethygu gan fwg tybaco, neu sy'n wynebu risgiau ychwanegol e.e. oherwydd beichiogrwydd. Mae unigolion sydd â chyflyrau o'r fath yn wynebu mwy o risg a dylid bod yn arbennig o ofalus i atal neu leihau i ba raddau y maent yn agored i fwg tybaco.

## Sigaréts Electronig

Mae'r BBC yn cydnabod y gall fod rhai cyflogeion sydd am ddefnyddio sigaréts electronig ('e-sigaréts') yn y gweithle, yn arbennig fel cymorth i roi'r gorau i smygu. Mae e-sigaréts yn gynhyrchion sy'n gweithio gyda batri sy'n defnyddio gwres i anweddu sylwedd hylifol, sy'n cynnwys nicotin, yn niwl erosol a gaiff ei fewnanadlu gan y defnyddiwr. Mae sylweddau ar gael gyda neu heb nicotin ynddynt.

Gall yr anwedd sy'n cael ei allyrru gan e-sigaréts (a dyfeisiadau tebyg) achosi i larymau tân weithredu ac arwain at adeiladau'n cael eu gwacáu. Hefyd, gall e-sigaréts, yn enwedig o bellter, edrych fel sigaréts go iawn, gan wneud gwaharddiad ysmygu'n anodd i'w reoli a chreu'r argraff ei bod yn dderbyniol i ysmygu. Am y rhesymau hyn ac eithrio pan fo eu hangen ar gyfer uniondeb artistig cynhyrchiad, nid yw'r BBC yn caniatáu defnyddio E-sigaréts neu ddyfeisiau tebyg yn adeiladau'r BBC.

Caniateir i bobl ddefnyddio e-sigaréts ar set lle bo angen gwneud hynny yng nghyd-destun cynhyrchiad, yn yr un modd ag y caniateir sigaréts traddodiadol yng Nghymru a Lloegr (gweler uchod). Fel gyda'r defnydd o sigaréts cyffredin, dylai'r broses asesu risg reoli'r defnydd ohonynt, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn y defnyddiwr ac unrhyw rai sy'n bresennol rhag y cemegion a gaiff eu rhyddhau – ni ddylid defnyddio sylweddau sy'n cynnwys nicotin.

Ni chaiff defnydd yn yr awyr agored ei gyfyngu i ardaloedd smygu penodedig.

## Methu â dilyn y Polisi

Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb i orfodi'r polisi hwn yn gyson ac yn effeithiol. Dylid ei gwneud yn ofynnol i unigolyn a gaiff ei ddarganfod yn smygu yn un o adeiladau neu gerbydau'r BBC roi'r gorau i smygu ac:

- yn achos cyflogeion, caiff ei drin fel achos o gamymddwyn a bydd yr unigolyn dan sylw yn destun camau disgyblu;
- yn achos gweithiwr llawrydd neu gontractwr, dylid ei rybuddio y gallai achos arall o dorri'r rheol arwain at ddirwyn y contract hwnnw i ben;
- yn achos ymwelydd, ei gwneud yn ofynnol iddo adael y safle.

Bydd camau disgyblu neu gamau priodol eraill yn cael eu cymryd hefyd yn erbyn unigolyn sy'n rhoi diogelwch pobl eraill yn y fantol drwy daflu sigarét mewn modd a allai greu perygl o dân neu drwy smygu mewn ardal gaeedig neu sylweddol gaeedig.

Yn ogystal â pholisi'r BBC, mae'r rheini nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth di-fwg yn atebol i dalu dirwy benodedig ac yn agored i erlyniad troseddol posibl.

## Cefnogi Smygwyr

Bydd rheolwyr yn ystyriol o anghenion smygwyr lle bo hynny'n ymarferol. Byddant yn penderfynu ar y trefniadau priodol er mwyn i gyflogeion allu gadael eu man gwaith i gymryd seibiant i smygu. Nid oes hawl gan unigolion i gymryd seibiannau gwaith ychwanegol at ddibenion smygu.

Bydd rheolwyr yn delio'n ystyriol â chyflogeion sydd am roi'r gorau i smygu. Darperir cymorth i bobl sydd am roi'r gorau i smygu am ddim gan y GIG, e.e. meddygfeydd Meddygon Teulu, Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Smygu lleol y GIG a Llinellau Cymorth Rhoi'r Gorau iddi y GIG: Llinell Gymorth Rhoi'r Gorau i Smygu Cymru a Lloegr 0800 169 0 169; Llinell Gymorth Rhoi'r Gorau i Smygu Gogledd Iwerddon 0800 85 85 85; Llinell Gymorth Rhoi'r Gorau i Smygu yr Alban 0800 84 84 84.

## Cyfrifoldeb

Cyfarwyddwyr Adrannau sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth o fewn eu Hadran.

Cyfarwyddwr BBC People sy'n bennaf cyfrifol am y Polisi hwn.